

## **Atodiad i'r Astudiaethau Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd**

Mae'r atodiad hwn yn nodi'r newidiadau y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfnod ymgynghori i'r Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni'r Gwynt ac Ynni'r Haul a'r Astudiaethau Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd cysylltiedig.

### **Datblygiadau Ynni Haul Ffotofoltäig**

- Tudalen 381 - O dan Tirweddau a Werthfawrogir ac Asedau Treftadaeth Ddiwylliannol, yn y paragraff olaf ychwanegir y canlynol: "parciau a gerddi cofrestredig, **a thirweddau sydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru**)".

### **Datblygiadau Tyrbinau Gwynt**

- Tudalen 389 - O dan Tirweddau a Werthfawrogir ac Asedau Treftadaeth Ddiwylliannol, yn y paragraff olaf ychwanegir y canlynol: "parciau a gerddi cofrestredig, **a thirweddau sydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru**)".
- Tudalen 387 Paragraff 5.11 – O dan Micro-leoli, mewnosodir paragraff newydd: paragraff 5.10a Dylai ymyl goch cynllun lleoliad y safle a chynrychioliad yr ehangylch(oedd) posibl gynnwys unrhyw lwfans y mae'r datblygwr yn gofyn amdano ar gyfer micro-leoli. Bydd hyn yn helpu i sicrhau na fydd y gofynion sylfaenol o ran pellter o dyrbinau eraill, eiddo preswyl a llystyfiant (megis gwrychoedd), yn ogystal â phellteroedd dymchwel, yn cael eu peryglu gan y defnydd o lwfansau micro-leoli.
- Tudalen 387 Paragraff 5.11 – O dan Seilwaith Atodol, dylai'r frawddeg gyntaf fod fel a ganlyn: "Dylid lleihau effeithiau tirwedd a gweledol unrhyw ddatblygiadau ategol, yr effeithiau tirwedd a gweledol cronus sy'n deillio o'r cyfuniad o dyrbinau a strwythurau ategol drwy wneud y canlynol:"